



## **Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe**

## **Cynllun Iaith Gymraeg Welsh Language Scheme**

Mae'r cynllun gwirfoddol hwn wedi'i baratoi yn unol â Chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn, sydd wedi'i ddiweddarau, gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 03/06/2010.

# Cynllun Iaith Gymraeg

Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd ef, wrth gynnal busnes yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail cydraddoldeb. Mae'r Cynllun hwn yn sefydlu sut y bydd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (CGGA) yn bodoli i gefnogi, hyrwyddo a datblygu cyfranogiad grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol ac unigolion yn y sector gwirfoddol ar draws ardal Dinas a Sir Abertawe.

Cyniga CGGA chwe gwasanaeth allweddol i'r sector gwirfoddol lleol:

- Datblygiadau Newydd:
- Cynrychiolaeth:
- Hyfforddiant:
- Gwirfoddoli:
- Gwybodaeth a chyngor:
- Gwasanaethau Ymarferol:

Bydd y gwasanaethau allweddol hyn yn cael eu hesbonio mewn manylder, yn ogystal â goblygiadau'r cynllun hwn ar y gwasanaethu hyn, yn is-adran 4. Darpariaeth a Chynllunio Gwasanaeth.

Mae gan Ddinas a Sir Abertawe boblogaeth o tua 216,000 (2001). Gall 16.5% o'r boblogaeth siarad, ddarllen neu ysgrifennu yn Gymraeg gan roi cyfanswm o 35,629 yng nghyfrifiad 2001. Yn ddiddorol, mae gan Abertawe un o'r crynoddau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

## 2. Egwyddor ac ymroddiad

Bwriada Datganiad Cyfleoedd Cyfartal CGGA sicrhau ein bod yn trin pobl yn gyfartal ac yn deg, ac nad oes unrhyw un yn derbyn triniaeth lai ffafriol, gan gynnwys ar sail dewis iaith.

Mae CGGA yn parchu a chefnogi'r egwyddor o gydraddoldeb yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn awyddus i hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr ardal leol ac ar draws Cymru.

Cydnabyddia CGGA y gall unigolion a sefydliadau fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn yr iaith o'u dewis, a chydnabyddia bwysigrwydd darparu gwasanaethau yn unol â dewis iaith ei ddefnyddwyr.

Cynigia CGGA yr hawl i unigolion neu sefydliadau ddewis ba iaith i'w defnyddio yn eu trafodion â CGGA lle bo'n bosib.

Bydd CGGA yn hybu, cynorthwyo a hyrwyddo dwyieithrwydd yn llawn ymysg y sector gwirfoddol, a sefydliadau partner, yn ardal Dinas a Sir Abertawe. Bydd CGGA yn cynnig cyngor ar ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg a chynhyrchu gwasanaethau dwyieithog i'w aelodau ac eraill yn y sector gwirfoddol lleol, mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Menter Iaith Abertawe a phartneriaid perthnasol eraill.

Ni fydd CGGA yn newid y cynllun hwn heb ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyntaf.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei integreiddio trwy'n hymarferion i gyd ac mae nifer o'r ymrwymadau a wneir yn y cynllun hwn eisoes mewn lle. Mae amserlen gweithredu ar gyfer meysydd allweddol sydd angen datblygu yn Atodiad 1.

### **3. Darparu a Chynllunio Gwasanaeth**

#### **3.1 Cynllunio Gwasanaeth**

Wrth ffurfio gweithdrefnau a pholisïau mewnol neu gynllunio unrhyw fentrau newydd sy'n cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd CGGA yn asesu'r canlyniadau ieithyddol o ran y defnydd o'r iaith Gymraeg a'r Saesneg, ac yn sicrhau y bydd y gweithdrefnau a'r polisïau newydd yn cydymffurfio ag ymrwymadau a roddir yn y cynllun.

Bydd y mesurau a ddisgrifir yn y cynllun hwn yn berthnasol i fentrau a pholisïau newydd. Bydd staff, gwirfoddolwyr ac eraill sydd

ynghlwm wrth eu ffurfio a'u rhoi ar waith yn cael eu hysbysu o'r cynllun hwn.

### **3.1 Darparu Gwasanaeth**

Mae CGGA yn darparu ystod eang o wasanaethau. Isod mae amlinelliad o oblygiadau'r cynllun Iaith Gymraeg hwn ar y gwasanaethau hyn; darperir mwy o fanylion o ran goblygiadau penodol yn is-adrannau 4, 5, 6, 7, ac 8.

#### **3.1.1 Datblygiadau Newydd**

**Pennu anghenion lleol;** bydd CGGA yn casglu gwybodaeth ar ddewis iaith defnyddwyr y gwasanaethau a phartneriaid ac yn ymateb yn unol â hynny.

**Cefnogaeth i sefydliadau a phrosiectau newydd;** bydd CGGA yn asesu pob datblygiad newydd yn erbyn y Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Bydd canllawiau ar asesu effaith yr iaith Gymraeg ar gael i'r staff.

#### **3.1.2 Cynrychiolaeth:**

**Fforymau sy'n pennu barnau lleol;** bydd CGGA yn sicrhau bod gan bob fforwm sy'n cael ei sefydlu ddeunydd dwyieithog perthynol lle bo angen ac wedi'u trefnu gan roi dewis iaith ragweithiol i'r holl gyfranogwyr. Gwasanaeth cyfieithu ar gael lle bod isafswm o 20% o gyfranogwyr yn gwneud cais am y gwasanaeth.

**Partneriaeth â'r sector statudol;** wrth ymrwymo i bartneriaeth bydd CGGA yn parchu Cynllun Iaith Gymraeg sefydliadau eraill ac yn hybu eraill i gydymffurfio â'i gynllun.

**Ymatebion i ymgynghoriadau;** wrth ymateb i ymgynghoriadau bydd CGGA yn tynnu sylw at unrhyw faterion a allai fod yn berthnasol yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn.

#### **3.1.3 Hyfforddiant:**

**Cyrsiau ar gyfer unigolion a sefydliadau;** bydd CGGA yn cynnal cyrsiau sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff, yn cynnal dosbarthiadau iaith Gymraeg ar gyfer staff lle bo angen ac yn ystyried yr angen am gynnal hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gwasanaeth cyfieithu iaith Gymraeg ar gael lle y bydd isafswm o 20% o gyfranogwyr yn gofyn am y gwasanaeth.

#### **3.1.4 Gwirfoddoli:**

**Gwasanaeth Biwro Gwirfoddoli i sefydliadau a gwirfoddolwyr posibil;** bydd CGGA yn cadw cofnodion o sgiliau ieithyddol gwirfoddolwyr, y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyrff gwirfoddol a'u paru yn unol â hynny, bydd hyn yn cynnwys cyfeirio unigolion at gyrff cyfrwng Gymraeg megis yr Urdd a Merched y Wawr.

### **3.1.5 Gwybodaeth a chyngor:**

**Ar gyllid, cyfansoddiadau, polisïau, cysylltiadau cyhoeddus ayb, yn cael eu cynnig mewn cymorthfeydd cyngor un i un, sesiynau seminar, cylchgrawn NIB misol, ar wefan, llyfrgell cyfeiriadau a chronfa ddata/ cyfeirlyfr o sefydliadau gwirfoddol;** bydd CGGA yn cynyddu argaeledd gwybodaeth ddwyieithog, gan gynnwys nifer o erthyglau a gyhoeddir yn Gymraeg ac am yr iaith Gymraeg. Byddwn hefyd yn cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo angen ac yn bosib mewn seminarau a digwyddiadau. Gwasanaeth cyfieithu ar gael lle bod lleiafswm o 20% o gyfranogwyr yn gwneud cais am y gwasanaeth.

### **3.1.6 Gwasanaethau ymarferol:**

**Cefnogaeth ysgrifenyddol; defnyddio/llogi cyfarpar swyddfa, lleoliadau Bergen Newydd i bobl ifanc, help gyda chyhoeddusrwydd;** bydd CGGA yn gweithio gyda Menter Iaith Abertawe i gynnig cymaint o gefnogaeth â phosib i ddefnyddwyr gwasanaethau ddatblygu eu gwasanaethau dwyieithog.

## **4. Delwedd Gyhoeddus**

### **4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol**

Bydd CGGA yn meddu ar hunaniaeth ddwyieithog, ac yn ei chynnal,.

Ble bynnag y bydd logo a theitl CGGA yn ymddangos, bydd y geirio yn llwyr ddwyieithog, a bydd y Gymraeg/Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd o ran ffurf, maint, eglurder a safon gyfartal. Pan ddarperir yn ddwyieithog, bydd y Saesneg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith i'r Gymraeg. Os yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar wahân (h.y. ddim yn union ochr yn ochr) byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder a safon.

Bydd yr hunaniaeth (teitl/logo) gorfforaethol ddwyieithog hon yn ymddangos ar yr holl bapur pennawd, slipiau cyfarch, taflenni ffacs, taflenni gwybodaeth, ffurflenni adroddiadau arwyddion allanol,

hysbysebion, bathodynnau a byrddau arddangos. Gweler papur arddull tŷ CGGA am fanylion llawn ar yr hunaniaeth gorfforaethol.

*Dyddiad targed: Presennol a pharhaus*

## **4.2 Arddangosiadau cyhoeddus (gan gynnwys arwyddion, arddangosfeydd a phosteri)**

### **4.2.1 Bydd holl arwyddion swyddfa/adeilad (mewnol ac allanol) CGGA yn ddwyieithog.**

Pan fydd Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion adeilad, bydd statws hafal ganddynt o ran ffurf, maint, eglurder a safon, a bydd y Saesneg yn ymddangos uwchben ac/neu i'r chwith i'r Gymraeg. Os yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar wahân byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder a safon.

*Dyddiad targed: Bydd arwyddion dwyieithog yn cael eu cyflwyno yn adeilad newydd CGGA pan gânt ei ddisodli*

### **4.2.2 Bydd holl systemau arddangos CGGA, baneri, posterï a stondinau arddangos yn ddwyieithog.**

Pan fydd Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar systemau arddangos, bydd statws hafal ganddynt o ran ffurf, maint, eglurder a safon, a bydd y Gymraeg yn ymddangos wrth ochr ac i'r dde i'r Saesneg.

*Dyddiad targed: bydd pob system arddangos newydd yn cael ei chynhyrchu'n ddwyieithog*

## **4.3 Taflenni gwybodaeth a ffurflenni**

Bydd holl daflenni a ffurflenni CGGA a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Pan fydd Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar daflenni a ffurflenni, bydd statws hafal ganddynt o ran ffurf, maint, eglurder a safon. Bydd taflenni un dudalen syml fel arfer yn cael eu dylunio gyda'r ddwy iaith gefn wrth gefn, a bydd ffurflenni maint A4 yn cael eu dylunio gyda'r Gymraeg wrth ochr ac i'r dde i'r Saesneg. Bydd canllawiau yn cael eu rhoi i staff a dylunwyr o ran dyluniad da.

*Dyddiad targed: Bydd holl daflenni a ffurflenni newydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog*

#### **4.4 Adroddiadau ac arweinlyfrau**

4.4.1 Bydd Adroddiad Blynnyddol CGGA a dogfennau eraill CGGA sy'n cael eu dosbarthu'n gyhoeddus yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, gyda dyluniad steil paralel neu steil cefn wrth gefn yn dibynnu ar y fformat ar adeg y cynhyrchu. Bydd gan y Gymraeg a'r Saesneg statws hafal o ran ffurf, maint, eglurder a safon.

4.4.2 Bydd adroddiadau sy'n cael eu cynhyrchu o ganlyniad i ymgynghoriadau neu gyfarfodydd (sydd fel arfer ond yn cael eu danfon at y bobl sy'n eu mynychu) yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ar sail y nifer o siaradwyr Cymraeg a fynychodd y cyfarfod (gweler 4.4 isod). Os oes mwy nag 20% o'r gynulleidfa yn gwneud cais am gyfarfod dwyieithog yna bydd yr adroddiad hefyd yn ddwyieithog.

#### **4.5 Cylchlythyron**

Bydd cylchlythyr misol CGGA, *Sector 3*, yn gyhoeddiad Saesneg yn bennaf ond bydd yn anelu at gynnwys o leiaf un erthygl ddwyieithog. Caiff NIB ei ddylunio a'i gysodi yn y cwmni, a'r amser gweithio dwbl y byddai ei angen i gynhyrchu fersiwn dwyieithog cyflawn o Sector 3 yw'r mwyaf cyfyngol yn hytrach na'r costau ariannol.

Caiff cynhyrchu NIB ei adolygu'n flynyddol i ystyried posibiliadau cynyddu, yn rhannol neu'n gyfan, gynnwys dwyieithog y cylchgrawn.

#### **4.6 Marchnata, cyhoeddusrwydd a hysbysebu**

Bydd CGGA yn hysbysebu ei wasanaethau yn ddwyieithog. Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos mewn hysbysebion, bydd statws hafal ganddynt o ran ffurf, maint, eglurder a safon, a bydd y fersiwn Cymraeg yn ymddangos wrth ochr y Saesneg a chyda'r ddwy iaith bob yn ail, yn dibynnu ar faint yr hysbyseb. Bydd gofal arbennig yn cael ei roi wrth brawf ddarllen a gwirio hysbysebion a ddylunnir gan asiantaethau allanol.

#### **4.7 Cyswllt â'r cyfryngau**

Bydd CGGA yn darparu gwybodaeth i'r cyfryngau yng Nghymru naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. I hyrwyddo hyn bydd CGGA yn gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol eraill ar sail ranbarthol er mwyn sicrhau bod cynrychiolydd sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael.

Bydd datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â digwyddiadau pwysig neu ddigwyddiadau sydd â thema iaith Gymraeg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog i'r cyfryngau lleol neu genedlaethol.

#### **4.8 Cyhoeddiadau i bobl â nam gweledol**

Bydd CGGA yn cynhyrchu fersiynau ar dâp o'r holl daflenni gwybodaeth, adroddiadau, arweinlyfrau a chylchlythyron. Pan fydd y tapiau hyn yn cael eu cynhyrchu byddant yn cael eu recordio'n ddwyieithog. Pan siaredir Cymraeg a Saesneg ar y tapiau byddant yn gydradd o ran clywadwyedd a safon, a bydd y Gymraeg ar un ochr i'r tâp a'r Saesneg ar yr ochr arall

### **5. Cyswllt â CGGA**

#### **5.1 Cyswllt wyneb yn wyneb**

Mae croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â CGGA, lle bo'n bosib. Os nad yw'r person CGG yn gallu siarad Cymraeg, byddant yn cynnig bod cynrychiolydd o CGGA sy'n gallu siarad Cymraeg yn delio gyda nhw. Os nad oes cynrychiolydd o'r CGG sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael bydd y person yn cael cynnig cyswllt â chynrychiolydd nad sy'n gallu siarad Cymraeg yn syth, neu gyswllt gohiriedig â siaradwr Cymraeg.

#### **5.2 Cyswllt ffôn**

Mae croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ffonio CGGA.

Ble bydd siaradwyr Cymraeg ar gael, bydd y cyfarchion cychwynnol yn ddwyieithog. Os taw Cymraeg yw dewis iaith y galwr bydd CGGA yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg i ddelio â'r ymholiad. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, bydd CGGA yn gwneud pob ymdrech i wneud trefniadau i ddelio â'r ymholiad yn Gymraeg cyn gynted â phosib.

Bydd y neges groeso ar beiriant ateb ffôn CGGA yn llwyr ddwyieithog, gyda'r neges Saesneg gyntaf. Mae croeso i bobl adael

neges yn Gymraeg neu'n Saesneg. Ble y bo'n bosib, bydd CGGA yn ymateb i'r ymholiad yn y dewis iaith. Os nad oes cynrychiolydd CGG sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael i ymateb i'r neges peiriant ateb, cysylltir â'r person gyda'r opsiwn i gael ei g/chysylltu â chynrychiolydd sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg yn syth, neu gyswllt gohiriedig â siaradwr Cymraeg.

### **5.3 Cyswllt ysgrifenedig**

Mae CGGA yn dal i groesawu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg; bydd hyn yn cael ei ddatgan yn glir ar waelod pob papur pennawd pan fydd y papurau newydd yn cael eu harchebu. Bydd cyfathrebiad a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg. Bydd y targedau amser ymateb i lythyron Cymraeg yr un peth a'r targedau amser ymateb i lythyron yn Saesneg.

Os yw CGGA yn ymwybodol mai Cymraeg yw dewis iaith unigolyn, grŵp neu sefydliad, bydd llythyron i'r unigolyn, grŵp neu sefydliad hwnnw yn Gymraeg, a bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw ar ein cronfa ddata.

Yn dilyn cyfarfod, cyfweiliad neu sgwrs ffôn yn Gymraeg, bydd unrhyw gyfathrebiad ysgrifenedig dilynol yn Gymraeg os mai dyna yw dewis iaith yr unigolyn.

Bydd gan bob aelod o'r staff ymwadiad e-bost a llofnodion allan o'r swyddfa dwyieithog.

### **5.4 Cynadleddau, cyrsiau hyfforddi, cyfarfodydd a digwyddiadau**

Mae CGGA yn trefnu nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd drwy gydol y flwyddyn, o fforymau cyfarfod bychain i gynadleddau diwrnod mawrion gyda thros gant o bobl yn eu mynychu. Ble y bo'n bosib, bydd CGGA yn cynnig awyrgylch ddwyieithog mewn digwyddiadau a chyfarfodydd.

Os oes cynrychiolydd sy'n gallu siarad Cymraeg yn mynychu digwyddiad ffurfiol, mawr (wedi'i drefnu gan CGG) bydd y digwyddiad yn cael ei gyflwyno a'i gau yn ddwyieithog.

Mewn digwyddiadau ffurfiol, mawr (ble disgwylir i fwy na 50 o gynrychiolwyr eu mynychu), megis cynadleddau a chysiau hyfforddi, bydd y cynrychiolwyr yn cael cynnig y cyfle i siarad yn Gymraeg, a

bydd eu dewis iaith yn cael ei gofnodi ar y ffurflen cadw lle. Os bydd mwy nag 20% o'r cynrychiolwyr yn gofyn am gael siarad yn Gymraeg yn y digwyddiad bydd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu cynnig gan CGGA. Os yw'r nifer o gynrychiolwyr sy'n gofyn am gael siarad yn Gymraeg o dan 20%, byddwn yn cysylltu â'r bobl hyn cyn y digwyddiad, gan esbonio na fyddai cynnig gwasanaethau dwyieithog yn y cyfarfod yn ymarferol. Bydd canllawiau i staff ar drefnu digwyddiadau dwyieithog yn rhan o'r ffurflen asesu effaith.

Bydd busnes mewn cyfarfodydd a digwyddiadau llai a drefnir gan CGGA yn cael eu cynnal yn newis iaith **pob un** o'r cynrychiolwyr.

## 6. Recriwtio

- 6.1 Pan fydd swyddi yn dod ar gael bydd dynodiad iaith yn cael ei roi iddynt, a fydd yn cael ei ddefnyddi wrth recriwtio. Bydd pob swydd newydd a gyflwynir hefyd yn cael dynodiad iaith.

Bydd y dynodiad iaith yn ystyried y graddau y bydd cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg un angenrheidiol wrth gyflawni gofynion y swydd, Mewn rhai achosion bydd y dynodiad iaith yn adlewyrchu anghenion rhanddeiliaid neu gyllidwyr.

- 6.2 Defnyddir y dynodiadau canlynol:

- **Cymraeg yn hanfodol** – dim ond pobl sy'n rhugl yn y Gymraeg all fod ar y rhestr fer a chael eu cyfweld. Ar gyfer swyddi ble mae Cymraeg yn hanfodol, bydd prawf llafar ac ysgrifenedig byd yn cael ei gynnal fel rhan o'r cyfweiliad.
- **Cymraeg yn fantais** – ble bydd y gallu i siarad Cymraeg yn cael yr un flaenoriaeth ag anghenion hanfodol eraill yn y broses cyfweld, ond bydd pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd yn gallu bod ar y rhestr fer a chael eu hapwyntio.
- **Cymraeg yn ddymunol** – bydd y gallu i siarad Cymraeg ond yn cael ei ystyried ar ôl ystyried ffactorau perthnasol eraill a defnyddir pan fo ychydig iawn o wahaniaeth rhwng ymgeiswyr o ran y ffactorau eraill.

- 6.3 Ar hyn o bryd mae hysbysebion recriwtio staff mewn papurau newydd yng Nghymru yn Saesneg. Ar gyfer swyddi lle mae'r gallu i

siarad Cymraeg yn hanfodol byddwn yn hysbysebu yn Gymraeg yn unig gydag esboniad byr yn Saesneg.

**6.4** Byddwn yn ystyried ac yn defnyddio, lle bo'n briodol, ddulliau eraill o hysbysebu swyddi – er enghraifft y 'Papurau Bro' (papurau newydd cymunedol) a Golwg.

**6.5** Ym mhob achos lle bod Cymraeg yn hanfodol gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais o flaen llaw i gael eu cyfweld yn Gymraeg. Darperir cyfleusterau cyfieithu i aelodau'r panel sydd ond yn siarad Saesneg.

## **7. Hyfforddiant iaith Gymraeg**

Mae CGGA yn ymroddedig i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'w staff er mwyn gwella ein gwasanaethau i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth.

**7.1** Mae angen i Reolwyr Llinell asesu anghenion hyfforddiant iaith Gymraeg gyda'i staff fel rhan o'r broses adolygu.

**7.2** Bydd CGGA yn pennu cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan sefydliadau allanol ac yn hyrwyddo'r cyrsiau'n fewnol. Os bydd staff yn dymuno mynychu cwrs iaith Gymraeg bydd pob achos yn cael ei ystyried o ran ei deilyngdod, yn ddibynnol ar berthnasedd yr hyfforddiant i swydd yr unigolyn a'i G/Chynllun Datblygu Personol.

## **8. Technoleg**

**8.1** Bydd CGGA yn sicrhau bod pob meddalwedd a brynir gan y sefydliad yn gytûn â chyflawni'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y pecyn geiriadur a gwiriwr sillafu 'Cysgliad' ar gael i aelodau perthnasol o'r staff.

## **9. Monitro ac adrodd ar y Cynllun**

**9.1** Mae gan y Cyfarwyddwr y cyfrifoldeb o fonitro ac adrodd ar berfformiad cyffredinol fel rhan o adolygiad blynyddol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o fewn y gweithdrefnau adrodd normal. Bydd crynodeb o'r adroddiad yn cael ei gynnal yn adroddiad blynyddol y sefydliad.

**9.2** Mae'r Grŵp Rheoli yn gyfrifol am adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau ac amcanion blynyddol cytunedig fel rhan o gylch adrodd

chwarterol. Dylai'r amcanion ganolbwyntio ar hygyrchedd gwasanaethau yn Gymraeg.

**9.3** Bydd y Grŵp Rheoli hefyd yn cofnodi ac adrodd ar sail chwarterol ar y canlynol:

- Y nifer o ddefnyddwyr sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg ac amseroedd ymateb
- Y nifer a'r gyfran gyffredinol o unrhyw gyhoeddiadau/datganiadau i'r wasg etc. sydd ddim yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog a'r rhesymau dros hyn
- Y gyfran o ymatebion gohebiaeth Cymraeg o fewn yr amser cytunedig
- Y nifer o ddigwyddiadau ayyb., fel cyfran, pan na fu cyfieithu/dehongli a'r rhesymau dros hyn
- Y nifer o staff a gwirfoddolwyr yn cyflawni hyfforddiant Cymraeg ac ar ba lefelau

**9.4** Bydd y Rheolwr Adnoddau Dynol yn cyflawni archwiliad blynyddol i gynnwys:

- Y nifer o staff, aelodau'r Bwrdd a gwirfoddolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, a'u rhuglder.

Bydd lefelau rhuglder yn cwmpo i'r categorïau canlynol:

Rhugl: gallu cyfathrebu yn rhugl yn Gymraeg

Canolradd: gallu cyfathrebu ar lefel ganolradd gydag ychydig neu ddim cymorth

Gwybodaeth sylfaenol: gallu cyflawni tasg sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chymorth

**9.5** Bydd CGGA yn adrodd yn flynyddol ar y cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

**9.6** Bydd CGGA yn adolygu'r cynllun bob tair blynedd.

## **10. Cyhoeddiad ac adborth**

Bydd Cynllun Iaith CGGA yn ddogfen a fydd ar gael i'r cyhoedd drwy wefan CGGA. Bydd crynodeb o'r cynllun yn cael ei arddangos ar y wefan, ble bydd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn cael eu hannog.

Bydd ein Rheolwr Cwynion yn delio â chwynion am fethu diwallu anghenion y cynllun cael eu delio a dylid eu cyfeirio at y cyfeiriad canlynol:

Canolfan Gweithredu Gwirfoddol CGGA, 7, Heol Walter, Abertawe.  
SA1 5NF.

## Atodiad 1. Amserlen Gweithredu

<b>Cynllun Iaith Gymraeg</b>	<b>Gweithred</b>	<b>Gan bwy a phryd</b>
<b>3.1</b> Cynllunio Gwasanaeth	Sicrhau copi i Ffurflen Asesu Effaith Iaith Gymraeg Dinas a Sir Abertawe.  Addasu Ffurflen Asesu Effaith i'w ddefnyddio gan CGGA a'i dosbarthu i bob aelod o'r staff.	Heledd Siôn, Menter Iaith Abertawe  Carol Green, CGGA
<b>3.1.1</b> Pennu Anghenion Lleol	CGGA i greu rhestr o ddewis iaith defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid drwy'r biwro.	Swyddog Gwybodaeth CGGA
<b>3.1.2</b> Cynrychiolaeth	Rhannu copi o Gynllun Iaith CGGA gyda'r partneriaid i gyd.  Goblygiadau'r cynllun i gael eu hystyried fel rhan o gyfansoddiad pob fforwm newydd.	Swyddog Gwybodaeth CGGA
<b>3.1.3</b> Cyrsiâu ar gyfer sefydliadau ac unigolion	Menter Iaith Abertawe i drafod Rhaglen Hyfforddi Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar gyfer sefydliad a hyfforddiant cyfredol.	Heledd Siôn a Swyddog Hyfforddi CGGA
<b>3.1.5</b> Gwybodaeth a Chyngor	Erthygl ar Fforwm Iaith Gymraeg Abertawe yn y cylchgrawn nesaf.  Datblygu erthyglau newydd ar gyfer pob rhifyn.  Menter Iaith Abertawe i gysylltu â Gail Hanlin i drafod cynnwys yr Iaith Gymraeg yn Sector 3 ac	Heledd Siôn  Heledd Siôn a Gail Hanlin Heledd Siôn a Gail Hanlin

	ar wefan CGGA.	
<b>3.1.6</b> Gwasanaethau Ymarferol	Menter Iaith Abertawe i hysbysebu'r gwasanaethau a chynghor cyfieithu y gallent eu cynnig drwy'r wefan a'r cyhoeddiadau uchod.	Heledd Siôn a Gail Hanlin
<b>4.1</b> Hunaniaeth Gorfforaethol	Hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog ar holl bapur pennawd, slipiau cyfarch, taflenni ffacs etc.	Swyddog Cyfathrebu <b>I'w adolygu'n flynyddol</b>
<b>4.2</b> Arddangosiadau Cyhoeddus	Bydd holl arwyddion adeilad/swyddfa CGGA yn ddwyieithog pan gânt eu hailosod  Bydd holl systemau arddangos, baneri, posteri etc. CGGA yn ddwyieithog pan gânt eu hailosod	Swyddog Cyfathrebu <b>I'w adolygu'n flynyddol</b>  Swyddog Cyfathrebu <b>I'w adolygu'n flynyddol</b>
<b>4.3</b> Taflenni gwybodaeth a ffurflenni	Bydd holl daflenni a ffurflenni CGGA ar gyfer defnydd cyffredinol yn ddwyieithog  Arweiniad ar ymarfer da i gael ei ddsbarthu i staff	Swyddog Cyfathrebu <b>I'w adolygu'n flynyddol</b>
<b>4.5</b> Cylchlythyron	Cynnwys Cymraeg a dwyieithog i gynyddu fel y nodder uchod.	Gail Hanlin <b>I'w adolygu'n flynyddol</b>
<b>4.7</b> Cyswllt cyfryngau	Menter Iaith Abertawe i roi gwybodaeth ar y cyfryngau Cymraeg a rhifau ffôn a chyfeiriadau e-byst cyswllt.  CGGA i weithio gyda CGG eraill yn rhanbarthol i ddarparu cynrychiolwyr.	Heledd Siôn  Carol Green <b>I'w adolygu'n flynyddol</b>
<b>5.2</b> Cyswllt ffôn	Siaradwyr Cymraeg i dderbyn arweiniad ar ateb y ffôn yn ddwyieithog.	<b>I'w adolygu'n flynyddol</b>

	Neges groeso ar y peiriant ateb i fod yn gwbl ddwyieithog.	<b>I'w adolygu'n flynyddol</b>
<b>5.3</b> Cyswllt ysgrifenedig	Datganiad ar bapur pennawd yn ei gwneud yn glir bod CGGA yn croesawu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.  Pob aelod o staff i gael ymwadiad e-bost a llofnodion allan o'r swyddfa dwyieithog yn ddwyieithog.	Swyddog Cyfathrebu <b>I'w adolygu pan geir papur pennawd newydd</b>  Swyddog TG <b>I'w adolygu'n flynyddol</b>
<b>5.4</b> Cynadleddau, cyrsiau hyfforddi, cyfarfodydd a digwyddiadau	Canllawiau i staff ar gyfer asesu'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog i fod yn rhan o'r Ffurflen Asesu effaith fel uchod.	Heledd Siôn a Gail Hanlin
<b>7</b> Hyfforddiant Iaith Gymraeg	Rheolwyr Llinell i asesu anghenion hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan o'r broses adolygu.	Pob Rheolwr Llinell <b>Adrodd yn flynyddol</b>
<b>8</b> Technoleg	Pecyn geiriadur a gwiriwr sillafu 'Cysgliad' i fod ar gael i bob aelod o'r staff sydd ei angen.	Swyddog TG
<b>9</b> Monitro ac Adrodd ar y Cynllun	Adroddiad blynyddol ar y Cynllun i'w gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chrynodeb i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol Corfforaethol.	Carol Green <b>Yn flynyddol</b>
<b>10</b> Cyhoeddiad ac Adborth	Y Cynllun ar gael ar wefan CGGA.	Swyddog TG
Cyffredinol	Menter Iaith Abertawe i roi Pecyn Ymwybyddiaeth iaith Gymraeg Bwrdd yr Iaith i CGGA, a phosteri a bathodynau "Iaith	Heledd Siôn

	Gwaith".	
--	----------	--